# PWYLLGOR CRONFA BENSIYNAU CLWYD
## 20 Mawrth 2023

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Cronfa Bensiynau Clwyd Cyngor Sir y Fflint, a gynhaliwyd ar ffurf cyfarfod hybrid yn Neuadd y Sir am 9.30am ddydd Mercher, 20 Mawrth 2024, gyda phresenoldeb o bell dros Zoom.

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Ted Palmer (Cadeirydd), y Cynghorydd Dave Hughes (Is-gadeirydd)** a'r Cynghorwyr Jason Shallcross ac Antony Wren

**AELODAU CYFETHOLEDIG:** Cynghorydd Anthony Wedlake (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam), y Cynghorydd Andy Rutherford (Cynrychiolydd Cyflogwyr Cynllun Arall) a Mr Steve Hibbert (Cynrychiolydd Aelodau'r Cynllun - yn bresennol o Eitem 44 ymlaen)

**HEFYD YN BRESENNOL (FEL ARSYLWYR):** Elaine Williams, (Cynrychiolydd Aelodau'r Cynllun PFB).

**YMDDIHEURIADAU:** y Cynghorydd Sam Swash (Cyngor Sir y Fflint), y Cynghorydd Gwyneth Ellis (Cyngor Sir Ddinbych)

Panel Ymgynghorol yn cynnwys: Philip Latham (Pennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd), Karen McWilliam (Ymgyghorydd Annibynnol – Aon), Paul Middleman (Actiwari'r Gronfa – Mercer), Steve Turner (Ymgynghorydd Buddsoddi'r Gronfa – Mercer).

Swyddogion/Ymgynghorwyr yn cynnwys: Neal Cockerton (Prif Weithredwr Cyngor Sir y Fflint), Debbie Fielder (Dirprwy Bennaeth, Cronfa Bensiynau Clwyd), Karen Williams (Rheolwr Gweinyddu Pensiynau), David Bateman (Cyfrifydd y Gronfa), Matt Grundy (Cyfrifydd Graddedig), Ieuan Hughes (Hyfforddai Buddsoddi Graddedig), Morgan Nancarrow (Cynorthwyydd Gweinyddu Llywodraethiant - cofnodion), Nick Page (Mercer - Ymgynghorydd Risg Strategol), Chris Emmerson (Aon - Ymgynghorydd y Sector Cyhoeddus).

Cyfeiriodd y Cadeirydd at y Wobr Cyflawniad Oes a dderbyniodd Mrs Fielder yn y gynhadledd LGC ddiweddar yng ngwesty Carden Park, a llongyfarchodd hi ar y gydnabyddiaeth genedlaethol a gafodd am ei gwaith ar ran Cronfa Bensiynau Clwyd yn ogystal â chronfeydd ar draws Cymru drwy Bartneriaeth Pensiynau Cymru ac ar draws y CPLlL ehangach.

Estynnodd y Cadeirydd groeso i Chris Emmerson o Aon a fydd yn cyflwyno rhan o gynllun busnes y Gronfa.

Dywedodd Mrs McWilliam o Aon wrth y pwyllgor bod Mr Phil Pumford wedi camu i lawr o'r Bwrdd Pensiynau a diolchodd y pwyllgor i Mr Pumford am ei gyfraniad dros y blynyddoedd.

## 41. DATGAN CYSYLLTIAD (yn cynnwys gwrthdaro buddiannau)

Gwahoddodd y Cadeirydd y rhai oedd yn bresennol i ddatgan unrhyw wrthdaro buddiannau cysylltiedig â'r gronfa, ar wahân i'r rhai hynny a gofnodwyd eisoes yng nghofrestr y Gronfa.

Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiad newydd.

## 42. COFNODION 15 CHWEFROR 2023

Cytunwyd bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 15 Chwefror 2023 yn gywir.

**PENDERFYNWYD:**

Derbyn a chymeradwyo cofnodion cyfarfod 28 Chwefror a bod y Cadeirydd yn eu llofnodi.

## 43. CAM UN O'R ADOLYGIAD O'R STRATEGAETH FUDDSODDI A DIWEDDARIAD AR DDATGANIAD Y STRATEGAETH FUDDSODDI

Aeth Mr Turner o Mercer â'r Pwyllgor drwy'r adroddiad. Eglurodd resymeg a chwmpas yr adolygiad Cam 1, sy'n canolbwyntio ar ffurfioli cynllun i gyrraedd y dyraniad targed i gronfa ecwitïau gweithredol cynaliadwy PPC. Roedd yna hefyd amcan i sicrhau bod cynllun clir a chadarn yn ei le i ddiwallu anghenion hylifedd y gronfa ar gyfer taliadau pensiwn rheolaidd ac i fodloni ymrwymiadau marchnadoedd preifat dros y ddwy flynedd nesaf. Gwnaed hyn gan ystyried sut y gallai newidiadau posibl mewn strategaeth helpu'r Gronfa i wireddu ei hamcanion buddsoddi cyfrifol.

Eglurodd Mr Turner rai o'r newidiadau posibl mewn strategaeth a oedd yn cael eu hystyried ac amlinellodd y newidiadau arfaethedig i'r dyraniad asedau strategol a'r Datganiad Buddsoddi Strategol (ISS) o ganlyniad i'r adolygiad.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor yn cytuno ar y dyraniad asedau arfaethedig ar gyfer y gronfa ac yn cymeradwyo'r ISS diweddaredig.

## 44. CAM 2 O'R ADOLYGIAD O'R STRATEGAETH FUDDSODDI - FFRAMWAITH SBARDUN LEFEL CYLLIDO 110%

Eglurodd Mr Middleman o Mercer bod sbardun lefel buddsoddi'r Gronfa o 110% wedi'i gyrraedd ers cyhoeddi'r papurau ar gyfer y Pwyllgor hwn, ac yr amcangyfrifir mai'r lefel gyllido bresennol yw 112%.  Roedd y lefel cyllido'n cael ei ddilysu yn unol â'r protocol cyfredol cyn cymryd unrhyw gamau, ond disgwylir iddo fod dros 110% yn hawdd.

Aeth Mr Nick Page â'r Pwyllgor drwy'r adroddiad. Eglurodd bod yr adolygiad yn edrych ar pa welliannau strategol y gellid eu gwneud pe bai'r sbardun lefel cyllido o 110% yn cael ei gyrraedd, a sut y byddai'r fframwaith llywodraethu cysylltiedig â gweithredu'r sbardun yn cael ei ddiweddaru. Yr ymagwedd a ddefnyddiwyd ar gyfer y rhan hon o'r adolygiad oedd i daro cydbwysedd rhwng defnyddio cyllid dros ben i leihau cyfraniadau'r cyflogwr yn y prisiad actiwaraidd nesaf ar yr un pryd a gostwng rhywfaint o'r risg buddsoddi o'r strategaeth er mwyn sefydlogi sefyllfa gyllido'r dyfodol ymhellach ac yn sgil hynny, gyfraniadau'r cyflogwr.

Roedd yr adolygiad yn edrych hefyd ar weithrediad y newidiadau arfaethedig ac yn cynnig diweddariad i'r cynllun dirprwyo er mwyn lleihau'r oedi rhwng taro'r sbardun a gweithredu. Y cynnig oedd bod y pwyllgor yn diffinio camau gweithredu diofyn er mwyn dadrisgio pan gaiff y sbardun ei daro, a fydd yn cael ei ddilyn oni bai bod Pennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd, ar ôl cael cyngor ffurfiol fel rhan o'r Grŵp Cyllido a Rheoli Risg, yn penderfynu peidio mynd ymlaen a'r camau diofyn.  Yn y senario hon, byddai cyfarfod arbennig o Bwyllgor y Gronfa Bensiynau'n cael ei alw i ystyried y materion, a gofynnir i'r Pwyllgor benderfynu a ddylid cymeradwyo dull gweithredu arfaethedig Pennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd.

Nododd Mrs McWilliam na ddylai'r newyddion bod y sbardun lefel cyllido wedi'i gyrraedd (yn amodol ar ddilysiad) ddylanwadu ar benderfyniad y Pwyllgor ynghylch yr argymhelliad hwn.

Gofynnodd y Cynghorydd Shallcross a oedd unrhyw arwydd o ddirywiad ym mherfformiad y farchnad, a dywedodd Mr Page bod barn Mercer o farchnadoedd ecwiti yn gadarnhaol Gofynnodd y Cynghorydd Shallcross pam ddim cynnal y lefel risg bresennol hyd nes y bydd perfformiad yn newid, a pha mor gyflym y gellid newid cyfraniadau cyflogwyr gan y gallai hyn, o ystyried sefyllfa ariannol bresennol y cynghorau, fod yn amser da i fanteisio ar warged.  Dywedodd Mr Page na fyddai unrhyw newidiadau i gyfraddau'r cyfraniadau'n digwydd tan ar ôl y prisiad ffurfiol nesaf (31 Mawrth 2025) gyda'r cyfraddau newydd i ddechrau o 1 Ebrill 2026, ac er bod y farn o'r ecwitïau'n ffafriol ar hyn o bryd, gallai hyn newid yn gyflym. Felly os mai'r penderfyniad fyddai cynnal y lefel bresennol o risg, mae posibilrwydd y byddai unrhyw ddirywiad cyn y prisiad actiwaraidd nesaf yn effeithio ar unrhyw ostyngiad posibl mewn cyfraddau cyfraniadau oherwydd y gwarged uwch sydd gan y gronfa ar hyn o bryd.

Ychwanegodd Mr Turner bod yr opsiwn i gynnal y lefel bresennol o risg wedi'i ystyried fel rhan o'r adolygiad ond nodwyd mai bwriad y sbardun oedd ystyried dadrisgio. Cadarnhaodd na fyddai'r cynnig yn lleihau'r enillion disgwyliedig islaw

anghenion y gronfa a bod lle o hyd i enillion posibl yn y portffolio wrth symud ymlaen. Dywedodd bod y ddau gam adolygu gyda'i gilydd yn gwella hylifedd, yn cyflymu datgarboneiddio ac yn lleihau risg er mwyn gwella sefydlogrwydd yn y cyllido a thrwy hynny hefyd sefydlogi sefyllfa cyfraniadau'r cyflogwr.

Gofynnodd y Cynghorydd Shallcross a oes unrhyw gamau cyfwerth y gellid eu cymryd i gynyddu risg eto os bydd y lefel gyllido'n disgyn islaw'r trothwy. Dywedodd Mr Turner nad oes sbardun ar gyfer ail risgio'n cael ei gynnig, ond mae hyn ar y rhaglen i'w drafod gan y Grŵp Cyllid a Rheoli Risg a bydd unrhyw argymhelliad yn dod yn ôl i'r Pwyllgor am gytundeb.

Dywedodd y Cynghorydd Wedlake ei fod yn meddwl bod y cynnig yn strategaeth gytbwys sy'n caniatáu i'r gronfa leihau risg a bod â'r rhagolygon gorau o gynnal elw derbyniol. Dywedodd ei fod yn cydnabod pwysau budd-ddeiliaid ond bod yr argymhelliad yn cefnogi cyflogwyr ac aelodau'r cynllun yn yr hirdymor ar yr un pryd a lleihau'r posibilrwydd o fod yn agored i risg diangen.

**PENDERFYNWYD:**

a) Cytunodd y Pwyllgor ar y cam diofyn arfaethedig i ddadrisgio drwy leihau amlygiad ecwiti i risg 10% ar ôl cyrraedd y sbardun 110%
b) Cytunodd y Pwyllgor ar y diweddariadau i fframwaith y cynllun dirprwyo i weithredu'r sbardun 110% os caiff ei gyrraedd.

## 45. POLISI RHEOLI RISG DRAFFT CRONFA BENSIYNAU CLWYD

Aeth Mrs McWilliam a'r Pwyllgor drwy'r adroddiad gan amlinellu cefndir yr adolygiad a'r cysylltiadau â Fframwaith Rheoli Risg Cyngor Sir y Fflint. Eglurodd y prif newidiadau i Bolisi Rheoli Risg y Gronfa (Polisi Risg gynt), yn cynnwys adran newydd yn amlinellu cyfrifoldebau'r Pwyllgor ac uwch swyddogion, yr adolygiad misol o'r gofrestr risg gan swyddogion, newidiadau i'r ffordd y caiff risgiau eu sgorio sy'n golygu y bydd risgiau coch yn fwy difrifol nag y maent o dan y drefn sgorio bresennol, a'r broses ffurfiol ar gyfer uwchgyfeirio risgiau coch.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor yn cymeradwyo'r newidiadau i'r Polisi Rheoli Risg.

## 46. CYNLLUN BUSNES DRAFFT PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU 2024-25 TO 2026-27

Eglurodd Mrs Fielder bod Cynllun Busnes PPC wedi'i dderbyn gan y Cyd-bwyllgor Llywodraethu yr wythnos ddiwethaf ac na chafwyd cais am unrhyw newidiadau, sy'n golygu mai'r Cynllun oedd wedi'i gynnwys gyda'r papurau cefndir oedd yr un terfynol ar gyfer ei gymeradwyo. Aeth â'r Pwyllgor drwy brif bwyntiau'r adroddiad, yn arbennig y gyllideb a'r costau blynyddol. Nododd gyflwyniad clustnodwyr marchnadoedd preifat sy'n denu ffioedd uwch yn seiliedig

ar symiau cyfalaf wedi'u hymrwymo neu gyfalaf wedi'i fuddsoddi, a bod y costau hyn yn awr wedi'u cynnwys yng nghyllideb PPC.

Dywedodd Mr Hibbert nad oedd ganddo unrhyw gwynion am y Cynllun Busnes ond nododd ei bryderon ynghylch llywodraethiant PPC a'r Cyd-bwyllgor Llywodraethu'n benodol. Cyfeiriodd at dudalen 5 sy'n datgan:

"Mae'r Awdurdodau Cyfansoddol yn ymwneud llawer â holl agweddau strwythur llywodraethu'r Bartneriaeth, tra bo Cyd-bwyllgor Llywodraethu'r Bartneriaeth a'r Gweithgor Swyddogion yn cynnwys cynghorwyr etholedig, cynrychiolwyr aelodau'r cynllun a swyddogion o'r Awdurdodau Cyfansoddol."

Dywedodd Mr Hibbert bod hyn yn rhoi'r argraff bod statws cynrychiolydd Aelodau'r Cynllun yr un fath ag aelodau eraill y Cyd-bwyllgor Rheoli. Eglurodd Mr Hibbert nad yw hyn yn gywir yn ei farn ef, gan fod Cynrychiolydd Aelodau'r Cynllun yn gorfod bodloni manyleb unigolyn, swydd ddisgrifiad, cyfweliad ac yn destun cyfyngiad amser o ddwy flynedd yn y rôl, gyda'r rôl hefyd yn un heb bleidlais, yn wahanol i aelodau eraill y Cyd-bwyllgor Gofynnodd a wnaed unrhyw gynnydd o ran gwneud cynrychiolydd aelodau'r cynllun yn aelod cyfartal o'r Cyd-bwyllgor.

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd yn ymwybodol o unrhyw ddiweddariad ar hyn a dywedodd bod yn rhaid i bob awdurdod cyfansoddol gytuno ar unrhyw newidiadau. Dywedodd bod cynrychiolydd aelodau presennol y Cyd-bwyllgor wedi newid meddwl y Cyd-bwyllgor sawl gwaith ac er nad oes ganddo bleidlais, mae'n ddylanwadol. Dywedodd y Cadeirydd y byddai'n trafod hyn gyda'r Cyd-bwyllgor ond nad yw'n rhagweld y bydd unrhyw newidiadau'n cael eu gwneud.

**PENDERFYNWYD:**

Nododd y Pwyllgor y diweddariad a chymeradwywyd Cynllun Busnes drafft PPC 2024/25 - 2026-27, yn cynnwys amcanion a chyllideb y Bartneriaeth.

## 47. CYNLLUN BUSNES DRAFFT CRONFA BENSIYNAU CLWYD 2023/24 - 2025/26

Aeth Mr Latham â'r Pwyllgor drwy'r cyflwyniad i'r Cynllun Busnes Drafft fesul tudalen gan amlygu meysydd gwaith a risgiau allweddol.

Aeth Mr Emmerson o Aon â'r Pwyllgor drwy Atodiad Llywodraethu'r Cynllun Busnes Drafft. Amlygodd y tasgau a'r risgiau allweddol, yn cynnwys:

- Cynllunio olyniaeth ac adolygiad arfaethedig o'r strwythur rheoli.
- Cod Ymarfer Cyffredinol newydd y Rheoleiddiwr y disgwylir iddo effeithio ar adolygiad perfformiad y dyfodol
- Bydd y broses dendro am Ymgynghorydd Buddsoddi yn dechrau'n gynnar yn y flwyddyn er mwyn gallu manteisio ar wybodaeth Mrs Fielder yn y maes hwn cyn iddi ymddeol. Bydd hyn yn galluogi

hyfforddi staff ar gyfer y contract ymgynghorydd annibynnol pan fydd yn mynd allan am dendr yn ddiweddarach yn y flwyddyn.
- Adolygiadau o Gynrychiolwyr Aelodau Cynllun y Bwrdd Pensiynau sydd ar ddod.

Pwysleisiodd Cynghorydd Shallcross bwysigrwydd gwaith cysgodi gan swyddogion er mwyn cynnal gwybodaeth.

Gofynnodd Mr Hibbert a fydd Cynrychiolwyr Aelodau Cynllun y Pwyllgor yn cael eu hadolygu ar yr un pryd â Chynrychiolwyr Aelodau Cynllun y Bwrdd Pensiwn. Dywedodd Mrs McWilliam na fyddai'n argymell hyn oherwydd y gwahaniaeth mewn cyfraddau amser.

Cyflwynodd Mr Middleman a Mr Turner Atodiad Cyllid, Cyllido a Buddsoddi'r Cynllun Busnes Amlygodd Mr Middleman yr Adolygiad Prisio Interim a fydd yn digwydd yr haf hwn ac a fydd yn rhoi sylw i nifer o themâu a drafodwyd yn gynharach cysylltiedig â cham 2 o'r adolygiad strategol.  Eglurodd mai'r Pwyllgor fydd yn cael Hyfforddiant ar y Strategaeth  Gyllido a Phrisio Actiwaraidd yn barod ar gyfer Prisiad Actiwaraidd ffurfiol y flwyddyn nesaf. Eglurodd Mr Turner y themâu cysylltiedig â buddsoddi allweddol yn cynnwys yr adolygiad ISS ac adroddiadau'r Tasglu Datgeliadau Cysylltiedig â Natur (TNFD)

Cyflwynodd Mr Karen Williams yr Atodiad Gweinyddol, gan amlygu newidiadau i'r rhestr o weithgareddau 'busnes fel arfer' i adlewyrchu twf cyfrifoldebau dydd i ddydd y tîm gweinyddu. Cafodd nifer o dasgau allweddol eu dwyn ymlaen o gynllun busnes y llynedd fel y trafodwyd ym mhwyllgor mis Chwefror, ac roedd yna hefyd rai tasgau newydd yn cynnwys cofnodi gweithdrefnau cysylltiedig â pholisi disgresiynol y Gronfa o safbwynt grantiau marwolaeth, a datblygu polisi uwchgyfeirio i gefnogi cyflogwyr nad ydynt yn cyflawni eu cyfrifoldebau cysylltiedig â'r Gronfa.

Cyflwynodd Mr Bateman y gyllideb ar gyfer costau gweithredu 2024 - 2025 gan egluro'r prif feysydd o newid, yn cynnwys:

- Mae costau gweithwyr yn seiliedig ar y niferoedd presennol gan ganiatáu 5% ar gyfer codiadau cyflog. Roedd gwir gostau gweithwyr 2023-24 yn is na'r hyn y cyllidebwyd ar eu cyfer oherwydd swyddi gwag sydd bellach wedi'u llenwi.
- Mae costau hyfforddi yn awr yn cael eu hadrodd ar wahân ar gyfer aelodau'r Pwyllgor,  aelodau'r Bwrdd Pensiynau a Swyddogion.
- Mae'r holl gostau ymgynghorwyr yn cynnwys prosiectau a ddynodwyd yn y cynllun busnes ac yn seiliedig ar y codiadau chwyddiant cytunedig yn y contractau. Fodd bynnag bydd y Gronfa yn tendro am gontract yr ymgynghorydd buddsoddi yn ystod 2024-2025 felly gallai'r rhain newid

- Mae'r gyllideb ar gyfer treuliau rheoli buddsoddi wedi cynyddu oherwydd gwerth ased net cynyddol y Gronfa yn seiliedig ar amcangyfrifon diweddaraf 2023-34.
- Roedd tanwariant ar gostau gweinyddu 2023 = 2024 oherwydd na ddigwyddodd y newidiadau meddalwedd oedd wedi'u cynllunio oherwydd oedi mewn prosiectau cenedlaethol, yn cynnwys cyhoeddiad rheoliadau McCloud a gweithrediad y Dangosfwrdd Pensiynau Cenedlaethol. Mae'r gost hon wedi'i dwyn ymlaen i gyllideb 2025-5

Cyflwynodd Mrs Fielder y llif arian parod, gan ddweud bod:

- Cyfanswm y buddion pensiwn wedi parhau i gynyddu.
- Caiff treuliau eu hamcangyfrif yn unol â'r cynnydd cytunedig ar gyfer y flwyddyn.
- Mae incwm a chyfraniadau cyflogwyr yn seiliedig ar y prisiad actiwaraidd diwethaf a chaiff cyswllt ei gynnal gyda chyflogwyr i bennu sut y byddant yn ymdrin ag unrhyw warged.
- Mae cyfraniadau cyflogwyr a gweithwyr yn seiliedig ar dâl pensiynadwy amcangyfrifedig.
- Mae tynnu i lawr a dyraniadau'r farchnad breifat yn anodd i'w hamcangyfrif ac mae incwm o'r rhain wedi bod yn is na'r disgwyl yn 2023 - 24

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor yn cymeradwyo'r Cynllun Busnes ar gyfer y cyfnod 2024/25 tan 2026/27 yn cynnwys y gyllideb ar gyfer 2024/25.

## 48. Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AM FUDDSODDI A CHRONNI

Ni chafwyd unrhyw sylwadau na chwestiynau am hyn mewn ymateb i gais y Cadeirydd.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor yn nodi ac yn gwneud sylwadau ar y diweddariad.

## 49. CYLLID A PHERFFORMIAD BUDDSODDI

Ni chafwyd unrhyw sylwadau na chwestiynau am hyn mewn ymateb i gais y Cadeirydd.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor yn nodi'r adroddiad a'r camau amrywiol a gymerwyd mewn perthynas â'r fframwaith ariannu a rheoli risg.

**50. DEDDF LLYWODRAETH LEOL (HAWL I WYBODAETH) 1985 – YSTYRIED GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD:**

Gwahardd y wasg a'r cyhoedd o weddill y cyfarfod yn rhinwedd paragraff(au) 14 Adran 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd).

**51. CAFFAEL GWEITHREDWR PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU**

Cyflwynwyd a thrafodwyd yr eitem hon ar y rhaglen.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor yn nodi ac yn derbyniad yr adroddiad ac yn cytuno:
a) Y dylid gofyn am ragor o wybodaeth gan PPC er mwyn hysbysu'r penderfyniad hwn ac
b) bod y Pwyllgor yn ailymgynnull mewn Cyfarfod Arbennig i'w gynnal o bell ym mis Ebrill i drafod a gwneud penderfyniad ar yr argymhelliad hwn,

**52. CYFARFODYDD I DDOD**

Gofynnodd y Cadeirydd i'r Pwyllgor nodi'r dyddiadau canlynol ar gyfer cyfarfodydd y Pwyllgor yn y dyfodol:

- Dydd Mercher 19 Mehefin 2024
- Bydd Cyfarfod Arbennig yn cael ei drefnu ar gyfer mis Ebrill (dyddiad i'w benderfynu).

Cyflwynodd y Cynghorydd Wedlake ei ymddiheuriadau ar gyfer sesiwn hyfforddi'r prynhawn oherwydd gwrthdaro â chyfarfod y Cyngor Sir. Gofynnodd bod pob ystyriaeth yn cael i rhoi i'r cyfarfodydd hyn wrth gynllunio cyfarfodydd y dyfodol.

Nododd Mr Latham bod dyddiadau arfaethedig cyfarfodydd pwyllgor y dyfodol wedi'u cynnwys ym mhecyn y cyfarfod, a gofynnodd i'r aelodau roi gwybod i'r swyddogion os oes unrhyw broblemau gyda'r dyddiadau hyn yn cynnwys unrhyw wrthdaro â dyddiadau cyfarfodydd Sir Ddinbych a Wrecsam.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor yn nodi dyddiadau cyfarfodydd y dyfodol.

Cyhoeddodd y Cadeirydd bod Mrs McWilliam yn awr yn camu i lawr o'i swydd fel Ymgynghorydd Annibynnol y Gronfa ac y bydd Ms Alison Murray o Aon yn cymryd y rôl hon. Diolchodd y Cadeirydd i Mrs McWilliam am ei chyngor fel

Ymgynghorydd Annibynnol y Gronfa a dywedodd y bydd Mrs McWilliam yn parhau yn ei swydd fel Cadeirydd y Bwrdd Pensiynau.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am ddod ac am gymryd rhan. Cynhelir cyfarfod ffurfiol nesaf y Pwyllgor ar 19 Mehefin. Daeth y cyfarfod i ben am 11:45am.

……………………………………

**Y Cadeirydd**